



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Cefneithin

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Mae ethos hapus a chyfeillgar yn bodoli yn Ysgol Cefneithin. Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gartrefol a chynhwysol yr ysgol. Mae'r weledigaeth o osod 'gwreiddiau cadarn – sylfaen i'r dyfodol' yn adlewyrchu ethos yr ysgol i annog disgyblion i fyfyrïo ar eu gwerthoedd ac i weithredu arnynt. Mae pawb yn cael eu parchu ac maent yn ofalgar iawn o'i gilydd a'r gymuned. O ganlyniad, mae agwedd y disgyblion at eu dysgu yn gryfder ac mae eu hymddygiad yn rhagorol.

Nodwedd gref o'r ysgol yw natur gyfeillgar y disgyblion. Maent yn ymfalchïo yn eu hiaith a'u treftadaeth leol ac yn feddylgar am eraill. Maent yn sgwrsio yn hollol naturiol ac yn dangos diddordeb yn y byd o'u cwmpas.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn bwrpasol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion. Er hyn, nid ydynt bob tro'n sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu ac ymestyn medrau ysgrifennu estynedig a medrau rhifedd y disgyblion yn ddigon adeiladol dros amser. Mae gan staff berthynas waith arbennig â'r disgyblion. Maent yn sicrhau cyflymder addas i'r gweithgareddau a darparu profiadau dysgu sydd yn ysgogol. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae arweinwyr yr ysgol yn cymryd rhan ragweithiol ym mhrosesau gwella'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau gwella. Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth gweithredol wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol ac wedi sicrhau bod arweinyddiaeth yn cael ei dosrannu. Serch hynny, nid yw'r blaenoriaethau yma bob tro'n ddigon clir ac amserol. Mae gan y pennaeth gweithredol weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae hi'n rhannu ei gweledigaeth yn effeithiol gyda phawb yng nghymuned yr ysgol.

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod blaenoriaethau'r ysgol yn glir a phenodol er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella yn amserol
- A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig a'u medrau rhifedd yn adeiladol
- A3 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Cefneithin
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Gâr
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	95
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	74
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	7
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%)	10.9%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%)	14.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	58.1%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2021
Dyddiad dechrau'r arolygiad	03/07/2023
Pennaeth gweithredol ers Medi 2021	

ⓘ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.